

CYMORTH GENNYM NI

Cysylltwch â Chyngor Sir Fynwy ar **01633 644644** os hoffech gymorth gyda'r canlynol:

- Iechyd yr Amgylchedd;
- Priffyrdd a Llifogydd;
- Ailgylchu a Gwastraff;
- Tai;
- Safonau Masnach;
- Y Dreth Gyngor/Ardrethi Busnes;
- Gwybodaeth ddefnyddiol ar gael ar dudalennau Rheoli Perygl Llifogydd CSF: [Cliciwch yma](#)

RHESTR WIRIO

- Cysylltwch â'ch cwmni yswiriant cyn gynted â phosibl. Gallai oedi arafu'ch cais i hawlio, neu effeithio ar eich gallu i hawlio. Ewch ati i gadw cofnod o'r holl alwadau / gohebiaeth;
- Cofnodwch a thynnu lluniau o'r holl ddifrod a achoswyd gan y llifogydd;
- Peidiwch â chael gwared ar unrhyw eitemau sydd wedi'u difrodi gan lifogydd, hyd nes i'ch cwmni yswiriant ddweud y gallwch wneud hynny;
- Gofynnwch i beiriannydd proffesiynol wirio'ch cyflenwad nwy/trydan;
- Gwnewch yn siŵr fod eich cartref yn ddiogel os ydych yn ei adael heb oruchwyliaeth;
- Dechreuwch atgyweiriadau ar ôl dod i gytundeb â'ch cwmni yswiriant.



monmouthshire
sir fynwy



RHIFAU CYSWLLT DEFNYDDIOL

Argyfyngau:

☎ 999

Cyngor Sir Fynwy:

☎ 01633 644644

Heddlu Gwent:

☎ 101/ 01633 838111

Gwasanaeth Tân ac

Achub De Cymru:

☎ 01443 232000

Argyfyngau Nwy:

☎ 0800 111 999

Rhif Argyfwng Toriad

Pŵer:

☎ 105

Argyfyngau Dŵr a

Charthffosiaeth:

☎ 0800 052 0130

Cymdeithas Yswirwyr

Prydain:

☎ 020 7600 3333

AM FWY O WYBODAETH

Cyfoeth Naturiol Cymru:

☎ 0300 065 3000

[naturalresources.wales/
flooding](https://naturalresources.wales/flooding)

Fforwm Llifogydd

Cenedlaethol

☎ 01299 403055

[nationalfloodforum.
org.uk](https://nationalfloodforum.org.uk)

Cyngor Ar Bopeth:

☎ 0800 702 2020

citizensadvice.org.uk

Lechyd Cyhoeddus

Cymru:

☎ 02920 227744

phw.nhs.wales

FloodRe:

☎ 02920 227744

floodre.co.uk

The Blue Pages –

Cyfeiriadur Llifogydd:

bluepages.org.uk

Trustmark:

☎ 0333 555 1234

trustmark.org.uk



monmouthshire
sir fynwy



**BETH
I'W WNEUD
OS YW EICH
CARTREF
WEDI
DIODDEF
LLIFOGYDD**

Mae'r daflen hon ar gyfer trigolion
Sir Fynwy sydd wedi cael eu
heffeithio gan lifogydd

BYDDWCH YN OFALUS

Gallai'r dŵr llifogydd fod wedi achosi difrod strwythurol i'ch eiddo. Argymhellir nad ydych yn dychwelyd i'ch cartref yn llawn amser hyd nes ei fod wedi cael ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr a'i adael i sychu'n llwyr.

Os oes gennych yswiriant, cysylltwch â'ch yswiriwr cyn gynted â phosibl. Os ydych chi'n rhentu eich eiddo, cysylltwch â'ch landlord a'r cwmni sy'n yswirio'r cynnwys. Gall oedi olygu y bydd eich cais i hawlio yn cymryd mwy o amser neu, mewn ambell i achos, yn cael ei wrthod.

- Er gwybodaeth, tynnwch luniau a / neu fideo o'r difrod, a marcio lefel uchder y dŵr ar ei uchaf ar y waliau.
- **Peidiwch â chael gwared ar unrhyw eitemau a gafodd eu difrodi gan lifogydd, na chlirio/dechrau atgyweirio nes bod eich yswiriwr yn ei gymeradwyo.**
- Cadarnhewch gyda'ch cwmni yswiriant y byddant yn talu am unrhyw wasanaethau/offer y gallai fod eu hangen arnoch.
- Gwiriwch fod eich cartref yn ddiogel. Peidiwch â gadael drysau heb eu cloi tra bod eich cartref heb oruchwyliaeth.
- Efallai y bydd 'crefftwy'r' yn galw. Os nad ydych yn eu hadnabod, gofynnwch i weld cerdyn adnabod. Mae cerdyn adnabod gan bob aelod o'r bwrdd nwy, y bwrdd trydan, staff yr Awdurdod Dŵr a gweithwyr y cyngor. Darllenwch eiradaon bob tro, a pheidiwch â thalu ymlaen llaw.
- Gall dŵr llifogydd gynnwys carthffosiaeth a chemegau - gwisgwch ddillad diogelu wrth glirio neu lanhau eich cartref – esgidiau, menig ac oferôls gwrth-ddŵr.

CYNGOR DIOGELWCH NWW/TRYDAN

- Diffoddwch eich cyflenwad nwy a thrydan a PHEIDIWCH â'u troi yn ôl ymlaen tan eu bod wedi cael eu harchwilio gan beiriannydd cymwys.
- Gallai dŵr llifogydd fod wedi effeithio ar eich offer nwy a'u gallu i weithio'n ddiogel. Am resymau diogelwch, mae'n hanfodol bwysig sicrhau bod yr offer yn cael eu gwirio gan beiriannydd cofrestredig Gas Safe.
- Os yw unrhyw un o'r offer cyflenwi trydan wedi bod dan ddŵr, cysylltwch â'ch cyflenwr trydan i roi gwybod am yr amgylchiadau ac i ofyn am gyngor.
- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod trydanwr cymwys yn gwirio'r holl wifrau, o'r mesurydd yn eich cartref, cyn i'r prif gyflenwad gael ei droi yn ôl ymlaen.

SYCHU EICH EIDDO

- Cyn dechrau glanhau eich eiddo mae angen cael gwared ar unrhyw ddŵr. Efallai y bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gallu gwneud hyn i chi, er, efallai y byddant yn codi tâl. Fel arall, gallwch hurio pypiau gan gyflenwyr lleol - i gael rhifau, edrychwch yn eich cyfeiriadur ffôn lleol.
- Os oes gennych wres canolog nwy neu olew, sydd wedi cael ei wirio gan beiriannydd, trowch ef ymlaen. Cadwch y thermostat rhwng 20-22 gradd fel ei fod yn gallu sychu'n gyson.
- Mae awyru da yn hanfodol i alluogi i'r lleithder ddianc. Cadwch ddrysau a ffenestri ar agor gymaint â phosibl yn ystod y dydd. Gallwch hefyd ddefnyddio peiriannau tynnu dŵr o'r aer i helpu i gael gwared ar anwedd dŵr.
- Os yw'r llifogydd wedi bod yn ddifrifol, mae'n debygol o gymryd misoedd lawer i sychu'r eiddo.

GLANHAU EICH CARTREF AR ÔL LLIFOGYDD

- Y ffordd fwyaf effeithiol o atal haint yw golchi eich dwylo ar ôl trin unrhyw beth sydd wedi bod mewn cysylltiad â dŵr llifogydd neu slwtsh a llaid.
- Peidiwch â defnyddio peiriant chwistrellu dŵr, pwerus, gan ei fod yn tasgu deunydd halogedig i'r aer.
- Os ydych chi'n dod ar draws cnofilod wedi marw, defnyddiwch fenig i'w codi a'u rhoi mewn bagiau i gael gwared arnynt.
- Taflwch ddodrefn meddal ac addurniadau sydd wedi cael difrod ac nad oes modd eu hatgyweirio.
- Tynnwch gymaint â phosibl o laid a dŵr brwt.
- Defnyddiwch ddŵr poeth â sebon i olchi bob arwyneb tan eu bod yn edrych yn lân, a defnyddio diheintydd i olchi pob arwyneb, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Defnyddiwch ddŵr poeth â sebon i lanhau ardaloedd paratoi bwyd, cypyrddau bwyd ac oergelloedd, yna defnyddio cannydd i'w diheintio. Taflwch unrhyw fyrrddau ac offer pren.
- Taflwch unrhyw fwydydd sydd wedi dod i gysylltiad â dŵr llifogydd, gan gynnwys unrhyw beth sydd wedi dadmer.
- Gadewch i bob arwyneb sychu - bydd hyn hefyd yn helpu i ladd germau.
- Cysylltwch â thîm lechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Fynwy am gyngor pellach.

LLETY DROS DRO

Efallai y bydd angen i chi symud i lety dros dro tra bod eich eiddo yn cael ei atgyweirio. Siaradwch â'ch cwmni yswiriant i ganfod eich opsiynau. Os nad oes gennych yswiriant, efallai y gall Cyngor Sir Fynwy eich cynorthwyo.

GWAREDU AR FAGIAU TYWOD

Os ydych wedi cael bagiau tywod gan Gyngor Sir Fynwy, eich cyfrifoldeb chi yw cael gwared arnynt neu eu storio rhag ofn y bydd llifogydd yn y dyfodol.